

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 5ed 2016 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gary Thomas (cadeirydd), Eilir Rowlands, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Alwyn Jones a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo Evans, Gethin Morris, Gwenda Evans, Tina Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Cynghorwr newydd.

Cafwyd cadarnhad gan y clerch bod yr hysbysiad swyddogol a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd wedi cael ei osod ym mhentref Llanfor ac os na fydd gofyn am etholiad ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori bydd gan y Cyngor yr hawl i gyfethol aelod newydd.

b) Asedau'r Cyngor.

Roedd y lloches bws ym mhentref Llandderfel a'r un ger y Bryntirion wedi cael eu harchwilio ac mewn cyflwr da.

c) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

Goryrru heibio Capel a Neuadd Cwmtirmynach - cafwyd cadarnhad fod y mater wedi cael ei basio'n mlaen i'r adran berthnasol yng Nghaernarfon.

ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Gwasanaeth y feddygfa – cytunwyd i dderbyn eu gwahoddiad i gynnwys enw'r Cyngor mewn llythyr i ddiolch i'r doctoriaid a staff y feddygfa am eu gwasanaeth amhrisiadwy.

b) Cyngor Gwynedd

i) Binau Halen - derbyniwyd llythyr yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gadarnhau eu penderfyniad ynglŷn â'r gwasanaeth cyflenwi halen. Roedd y cynghorwyr dal yn erbyn talu'n ychwanegol am y gwasanaeth yma a chytunwyd i gydweithio gyda'r Bartneriaeth a gweddill Cyngorau Cymuned a Thref Penllyn i geisio cael cyfaddawd.

ii) Ymchwiliad Gorfodaeth Stryd - cais i'r Cyngor Cymuned gwblhau holiadur am wasanaeth gorfodaeth stryd y Cyngor. Cytunwyd i gwblhau'r holiadur.

iii) Mabwysiadu'r Cod ymddygiad – cytunwyd i dderbyn eu gwahoddiad i gynnwys enw'r Cyngor Cymuned yn eu hysbyseb i gadarnhau bod y Cod Ymddygiad newydd wedi cael ei fabwysiadu.

iv) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Gorffennaf.

c) Amrywiol

i) Ombwdsmon – Copi o'i Adroddiad Blynyddol.

ii) Galwad Agored – Arloesi Gwynedd Wledig - gwahoddiad i gydweithio gyda AGW i dreialu a dysgu am fodelau gwahanol o drosglwyddo gwasanaethau i drigolion lleol. Cytunwyd y byddai Partneriaeth Penllyn yn addas ar gyfer y math yma o brosiect.

iii) Archif Gwefannau y D.U. - gwahoddiad i'r Cyngor gymryd rhan yn 'Archif We y D.U.' drwy archifo gwefan y Cyngor. Cytunwyd i fod yn rhan o'r cynllun ac arwyddo'r ffurflen ganiatâd.

iii) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Cyflog y clerc (Ebr-Meh)

ii) TWE

iii) Craig Tree Services (torri coed ym mynwent Llanfor)

c) Derbyniwyd cais ariannol gan Shelter Cymru. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

iv) Unrhyw Fater Arall.

a) Goryrru ar yr A494 Glanrafon i Bala a diogelwch cyffordd Cefnddwysarn.

Trafodwyd pryder y cynghorwyr i ddiogelwch y gyrwyr ar yr A494 gan fod damweiniau pellach wedi bod ym Methel a Glanrafon. Roedd hefyd pryder am ddiogelwch y plant a oedd yn dal y tacsis ysgol yng Nghefnddwysarn gan fod cerbydau yn goryrru heibio'r gyffordd. Cytunwyd i geisio cael llythyrau gan y cwmni bysiau a thacsis a'r ysgol i geisio cryfhau ymgyrch y Cyngor Cymuned i ddiogelu'r safle.

b) Cerrig yn dod allan i'r ffordd ger Henblas a Cae Pant, Llandderfel.

Gofynnwyd i'r clerc hysbysu Cyngor Gwynedd fod cerrig yn dod allan i'r ffordd ac yn achosi difrod i olwynion cerbydau.

c) Problem parcio ar gyffordd y Sgwâr Trefalgar, Llandderfel.

Roedd pryder y gallai'r holl gerbydau a oedd yn parcio ar, a gerllaw cyffordd y Sgwâr amharu ar fynediad gerbydau gwasanaeth brys mewn argyfwng. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr i'r trigolion lleol a'i osod yn y Neuadd yn gofyn am eu cydweithrediad i gadw'r gyffordd yn glir.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Medi 6ed yn Ffestri
Glanrafon am 7.30 y.h.**